



Papur Gwybodaeth

Cyllideb 2017

Cyflwynodd y Canghellor Philip Hammond ei Ddatganiad Cyllideb ar 22 Tachwedd. Hon oedd y gyllideb gyntaf ers yr etholiad sydyn ym mis Mehefin pan gollodd y Ceidwadwyr eu mwyafrif. Rhoddodd Hammond ddiweddariad ar sefyllfa economaidd y Deyrnas Unedig, gan ddweud bod yr economi'n parhau i dyfu wrth i'r Deyrnas Unedig ddatblygu perthynas newydd gyda'r Undeb Ewropeaidd tra bod trafodaethau Brexit yn mynd rhagddynt. Ateggodd Hammond fod y trafodaethau'r Undeb Ewropeaidd ar gam hollbwysig; fodd bynnag, dywedodd fod y gyllideb hon am fwy na dim ond Brexit.

Dywedodd y Canghellor y byddai'r Llywodraeth yn cadw at eu haddewid i adeiladu mwy o dai fforddiadwy ar gyfer y genhedlaeth nesaf a gwneud breuddwyd perchentyaeth yn realaeth i bawb.

Aeth y Canghellor yn ei flaen drwy wneud nifer o ymrwymadau newydd a newidiadau polisi yn ogystal ag ailadrodd nifer o addewidion o gyllidebau blaenorol.

Mae'r pwyntiau allweddol o'r Gyllideb a all effeithio ar gymdeithasau tai Cymru yn cynnwys:

- Neilltuwyd £3bn dros y ddwy flynedd nesaf i sicrhau fod y Deyrnas Unedig wedi paratoi ar gyfer Brexit. Mae'n debyg y caiff hyn ei ddefnyddio ar gyfer paratoi ffiniau, sefydlu cytundebau masnach newydd a gweithredu system fewnfudo'r dyfodol.
- Ailadroddodd Philip Hammond ymrwymiad blaenorol i ostwng y tollau ar Bont Hafren.
- Dywedodd y cynyddir yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol gan 4.4% i £7.83. Bydd hefyd yn cynyddu trothwy cyfradd sylfaenol treth incwm i £11,850.
- Addasiadau i strwythur Credyd Cynhwysol i drin materion yn ymwneud ag oedi wrth dalu.

Er bod llawer o'r ymrwymadau'n ymwneud â thai a wnaeth Hammond yn effeithio'n uniongyrchol ar Loegr yn unig, mae agweddau'n dal i fod sy'n berthnasol i Gymru. Rhoddir manylion hyn islaw:



Manylion ar gyhoeddiadau perthnasol am gyllid

1. £1.5bn i fynd i'r afael â phryderon am Credyd Cynhwysol

Yn y Gyllideb, cadarnhaodd Hammond gred y Ceidwadwyr fod Credyd Cynhwysol yn newid angenrheidiol a buddiol i'r system budd-daliadau. Fodd bynnag, roedd yn cydnabod fod problemau gyda'r system felly dywedodd y byddai'n dileu'r cyfnod aros gorfodol o 7 diwrnod ar ddechrau'r hawliad, gan olygu y bydd yr hawl yn dechrau ar y diwrnod y gwneir yr hawliad.

Cydnabu Hammond hefyd fod llawer o hawlwr yn cael trafferthion gyda chostau byw yn yr wythnosau cyn gweithredu eu taliad cyntaf, er bod taliadau blaendal yn opsiwn. Addawodd Hammond y bydd yn newid y system blaendaliad fydd yn galluogi unrhyw deulu i fedru cael mynediad i'r holl daliad misol y mae ganddynt hawl iddo o fewn 5 diwrnod o hawlio blaendaliad. Caiff yr amserlen ad-dalu ar gyfer y blaendaliad hefyd ei ymestyn i 12 mis o 6 mis..

Cydnabu Hammond fod llawer o hawlwr yn mynd i ôl-ddyledion rhent dan y Credyd Cynhwysol felly addawodd y bydd hawlwr sy'n derbyn budd-dal tai ar yr hen system yn parhau i dderbyn hyn am ddwy wythnos arall ar ôl gwneud hawliad am y Credyd Cynhwysol.

2. Cyllid canlyniadol o £1.24bn i Lywodraeth Cymru

Dywedodd Phillip Hammond y bydd y swm canlyniadol i Lywodraeth Cymru yn £1.24m. Rydym yn disgwyl manylion pellach am y math o gyllid ac ym mha gyfnod y bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn hyn, ond mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi dweud y bydd yn rhaid ad-dalu dau-draean o'r cyllid hwn yn ôl i Lywodraeth y Deyrnas Unedig a bod y "cynnydd go iawn yn llai nag yr ymddengys".

3. £44bn o gyllid a benthyciadau dros 5 mlynedd i hybu'r farchnad tai

Ategodd Philip Hammond gred y Ceidwadwyr y dylai perchentyaeth fod o fewn cyrraedd pawb a chyhoeddodd nifer o bolisiau i gefnogi hyn. Aiff y cyllid ychwanegol hwn tuag at hybu adeiladu a sgiliau.

Mae hwn yn bolisi i Loegr yn unig; fodd bynnag, caiff peth o'r cyllid ychwanegol a ddatganolir i Gymru ei gynnwys yn y cyllid canlyniadol o £1.24bn a byddwn yn galw iddo gael ei fuddsoddi mewn tai.



4. Diddymu treth stamp ar gyfer prynwyr cyntaf

I gymeradwyaeth o ddwy ochr Tŷ'r Cyffredin, cyhoeddodd Hammond y bydd yn diddymu treth stamp ar gyfer prynwyr tro cyntaf sy'n werth hyd at £300,000 neu'r £300,000 cyntaf o gartrefi £500,000 yn Llundain.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu system newydd i gymryd lle treth stamp o fis Ebrill 2018 - Treth Trafodiadau Sir. Mae hyn yn golygu fod potensial i ddileu treth stamp i fod yn weithredol yng Nghymru tan hynny. Mae mwy o wybodaeth ar bolisi Llywodraeth Cymru ar dreth stamp ar gael [yma](#).

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gynnwys y papur gwybodaeth yma, cysylltwch os gwelwch yn dda â Georgina Shackell Green ar Georgina-shackellgreen@chcymru.org.uk neu 029 2067 4800.